



YMGYNGHORIAD I WNEUD YSGOL PENYFFORDD YN FWY

DOGFEN DARLLEN CYFLYM

DOGFEN I BOBL IFANC

Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ystyried newid y ffordd y mae addysg yn cael ei ddarparu yn eich ardal trwy wneud Ysgol Penyffordd yn fwy fel bod mwy o ddisgyblion yn gallu mynychu'r ysgol.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu nifer y disgyblion llawn amser sy'n mynychu Ysgol Penyffordd o 315 i 375 o ddisgyblion.

Hoffech chi fwy o wybodaeth?

Rydym wedi paratoi dogfennau mwy manwl am y cynnig hwn.

Gallwch ddilyn y ddolen gyswllt yma i gael gwybod mwy



<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx>



Ymgynghoriad



Styriaeth



Cynllunio

Beth ydym ni'n ei wneud?

Mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn prosesau penodol wrth ystyried gwneud newidiadau mawr i ysgolion.

Fel rhan o'r prosesau hynny rydym wedi dechrau trafodaeth ffurfiol i ofyn i chi am eich barn i'n helpu ni gyda'n proses gwneud penderfyniadau.

Mae eich barn chi yn bwysig iawn i ni a byddwn yn dweud wrth Gabinet y Cyngor beth ydyn nhw er mwyn gwneud penderfyniad i wneud newidiadau i Ysgol Penyffordd.

Bydd Cyngorwyr yn trafod eich barn, materion a goblygiadau ar gyfer y dewisiadau ar gyfer Ysgol Penyffordd ac yna byddan nhw'n penderfynu beth sy'n digwydd nesaf.



Ymgynghoriad



Styriaeth



Cynllunio



Ymgynghoriad



Styriaceth



Cynllunio

Ysgol Penyffordd – Cefndir

Mae nifer o ysgolion cynradd ac un ysgol uwchradd ym Mhenyffordd a'r ardal gyfagos.

- Ysgol Penyffordd yw'r unig ysgol gymuned cyfrwng Saesneg yn yr ardal
- Mae lle yn yr ysgol ar gyfer 315 o ddisgyblion llawn amser ar hyn o bryd.
- Yn 2019 adeiladodd y Cyngor ysgol newydd i Ysgol Penyffordd ar safle Ysgol Fabanod Abbotts Lane er mwyn cyfuno dau safle yn un
- Mae mwy o ddatblygiadau tai a mwy o ddisgyblion yn yr ardal wedi rhoi pwysau ar Ysgol Penyffordd oherwydd bod mwy o alw am leoedd yn yr ysgol.



Ymgynghoriad






Styrfaeth



Cynllunio

Ysgol Penyffordd - Gwybodaeth Ychwanegol



| | | | |
|--|-----------|---|----------|
| Leoliad yr ysgol | | Parc Crescent, Penyffordd, Ger Caer, CH4 0HW | |
| Ystod Oedran | | 3-11 | |
| Categori Ysgol | | Ysgol gymunedol | |
| Categori Cyfrwng Iaith | | Cyfrwng Saesneg | |
| | | Derbyn - Blwyddyn 6 | Meithrin |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr ysgol ym mis Medi 2021 | | 289 | 43 |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr ysgol | Medi 2022 | 287 | 40 |
| | Medi 2019 | 272 | 50 |
| | Medi 2018 | 253 | 39 |
| | Medi 2017 | 248 | 35 |
| Lleoedd ar gael | | 315 | 45 |
| Lleoedd dros ben | | 26 | |
| Rhagamcanion Disgyblion | Medi 2022 | 300 | 46 |
| | Medi 2023 | 304 | 44 |
| | Medi 2024 | 308 | 44 |
| | Medi 2025 | 313 | 45 |
| | Medi 2026 | 314 | 45 |
| Categori Cyflwr Adeilad | | A – Adeilad Newydd 2019 | |
| | | Da. Yn perfformio fel y bwriedir ac yn gweithredu'n effeithlon | |
| Addasrwydd Adeilad | | A – Adeilad Newydd 2019 | |
| | | Da. Cyfleusterau sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles mewn ysgolion. | |

Pam ydym yn ystyried newid pethau?

- Hoffem i'r holl blant a phobl ifanc yn yr ardal leol fynychu eu hysgol leol
- Mae'r galw am leoedd yn Ysgol Penyffordd wedi cynyddu ac rydym ni am fynd i'r afael â hyn trwy adeiladu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol i'r ysgol
- Rydym wedi cael cyllid ychwanegol i gefnogi buddsoddiad yn Ysgol Penyffordd.



Ymgynghoriad



Styriaeth



Cynllunio



Ymgynghoriad



Styriaeth



Cynllunio

Beth yw ein dewisiadau?

Rydym ni wedi edrych ar nifer o ddewisiadau ar gyfer ysgolion yn yr ardal

- Dewis 1 - Gwneud dim byd - mae'r dewis yma wedi cael ei wrthod gan na fyddai hynny'n mynd i'r afael â'r galw cynyddol am leoedd i ddisgyblion yn Ysgol Penyffordd, a byddai'n golygu o bosibl bod rhai disgyblion yn yr ardal yn gorfod teithio y tu allan i'r ardal i gael eu haddysg ☒
- Dewis 2 - Gwneud ysgolion eraill yn yr ardal yn fwy - mae'r dewis hwn wedi cael ei wrthod gan na fyddai'n mynd i'r afael â'r cynnydd yn y galw am leoedd ym Mhenyffordd ac mae'r safleoedd eraill yn rhy gymhleth i'w hymestyn ☒
- Dewis 3 - Gwneud Ysgol Penyffordd yn fwy i ddarparu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol er mwyn galluogi'r ysgol i dderbyn mwy o ddisgyblion – **dyma'r dewis sy'n cael ei ffafrio** ☑

Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn cynnig y canlynol

- ❖ Gwneud Ysgol Penyffordd yn fwy fel bod lle i 375 o ddisgyblion llawn amser yn hytrach na 315.
- ❖ Adeiladu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol at adeilad presennol Ysgol Penyffordd (un ystafell ddosbarth ar y llawr isaf i'r Cyfnod Sylfaen ac un arall ar y llawr cyntaf i Gyfnod Allweddol 2)
- ❖ Rydym yn bwriadu gwneud yr ysgol yn fwy a chwblhau'r gwaith adeiladu erbyn mis Medi 2023



Ymgynghoriad




Styriaeth



Cynllunio

Beth rydym yn ei gynnig?

Cynlluniau amlinellol ar gyfer yr ystafelloedd dosbarth newydd
Caniatâd Cynllunio = wedi cael ei geisio a'i gymeradwyo yn barod
Costau rhagamcanol y prosiect = £600,000



Ymgynghoriad



Styriaeth



Cynllunio

Beth yw manteision ac anfanteision y cynnig?

| Manteision | Anfanteision |
|--|---|
| <p>☺ Rydym yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am leoedd i ddisgyblion yn ardal Penyffordd</p> | <p>☹ Efallai y bydd rhywfaint o amhariad ar adeilad yr ysgol a'r gymuned leol tra bod yr estyniad yn cael ei adeiladu</p> |
| <p>☺ Rydym eisoes wedi diogelu'r adeilad presennol ar gyfer y dyfodol a galluogi'r ysgol i gael ei hystyngyn</p> | |
| <p>☺ Bydd llai o ddisgyblion yn gorfod teithio y tu allan i'r ardal i gael eu haddysg</p> | |
| <p>☺ Rydym wedi cael caniatâd cynllunio i adeiladu dwy ystafell ddosbarth ychwanegol yn barod</p> | |



Ymgynghoriad



Styriaeth



Cynllunio


Amserlen

| Camau'r broses | Dyddiadau Allweddol |
|---|---------------------------------|
| Ymgynghoriad Ffurfiol | 1 Mawrth 2022 to 11 Ebrill 2022 |
| Mae'r Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid symud ymlaen â'r cynigion | Gorffennaf 2022 |
| Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol ac yn cychwyn cyfnod gwrthwynebu | Medi 2022 |
| Mae'r Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu ac yn penderfynu p'un a ddylid gweithredu'r cynigion ai peidio | Tachwedd 2022 |
| Bydd llythyr hysbysiad o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gyda chanlyniad penderfyniad y Cabinet | Rhagfyr 2022 |

Rhowch eich barn i ni

Ar ôl rhoi amlinelliad o fanylion y cynlluniau

rŵan rydym eisiau gwybod beth yw eich barn chi amdanyn nhw.

Gallwch roi gwybod i ni mewn nifer o ffyrdd 

Os hoffech chi gael copi papur o'r ddogfen yma, cysylltwch â ni 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Neu ffoniwch
01352 704015 neu 01352 704014

**Rhaid i chi ymateb
erbyn hanner nos ar 11
Ebrill 2022**

Ar-lein


Defnyddio'r ddolen i'r arolwg
<https://www.smartsurvey.co.uk/s/RSDR1R/>

Papur

Ysgrifennu atom gyda'ch barn neu gallwch ysgrifennu at:

Tîm Moderneiddio Ysgolion, Tŷ Dewis Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3TX

21stcenturyschools@flintshire.gov.uk



Cod QR

Gallwch ymateb i'r arolwg ar-lein trwy sganio'r cod QR uchod

